Atodiad 1

Cynllun Iaith Gymraeg
Cyngor Bro Morgannwg

Adroddiad Monitro Blynyddol 2014-15

1. Cyflwyniad

1.1 Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol y Cyngor ym Mawrth 2012 ac y mae'n egluro ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg sy'n gydradd â'r rhai Saesneg.

1.2 Rydym wedi parhau i weithredu'r cynllun gweithredu cysylltiedig, ac y mae manylion am hyn a sylwadau ar y cynnydd a wnaethpwyd ym mhob maes wedi'u cynnwys yma. Cafodd y cynllun ei adolygu'n rheolaidd a thîm Cydraddoldeb sy'n cyd-drefnu'r broses o'i weithredu. Cafodd camau gweithredu eu hymgorffori mewn cynlluniau gwasanaeth adrannol, sy'n rhan annatod o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro bob chwarter gan bwyllgorau craffu'r Cyngor.

1.3 Yn unol â Mesur y Gymraeg 2011, y mae'r cyngor wedi cwblhau holiadur manwl ynglŷn â'r Safonau Cymraeg a gynigiwyd, ac yn aros am yr hysbysiad cydymffurfio.

2. Cynnydd o safbwynt Materion Corfforaethol

2.1. Cafodd arolwg ar sgiliau Cymraeg ei gynnwys mewn holiadur a anfonwyd i bob aelod o staff, a chofnodwyd y canlyniadau ar system Oracle. Byddwn hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu gwybodaeth am sgiliau pobl sy'n ymgeisio am swyddi yn y Cyngor.

2.2 Yn y cyfamser, y mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg ei staff. Dau ar hugain o aelodau o staff a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau Cymraeg y bu tîm Cydraddoldeb yn eu hyrwyddo ym mis Medi, ac arian o gyllideb y tîm a dalodd am ddau o'r cyrsiau hynny. Mae hyn yn gryn dipyn yn fwy nag y llynedd. Serch hynny, y mae cryn nifer wedi rhoi'r gorau i'r cyrsiau am wahanol resymau ac y mae cadw pobl ar gyrsiau'n dipyn o her o hyd.

2.3 Mae'r tîm yn parhau i gydweithio'n agos ag adran Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd er mwyn annog mwy o staff i ymuno â chyrsiau ffurfiol. Mae Canolfan Addysg Oedolion Y Barri'n neilltuol noson yr wythnos ar gyfer gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, gan gynnig dosbarthiadau TG, canu a gweithgareddau eraill. Mae'r gweithgareddau hyn ar gael i ddysgwyr a siaradwyr rhugl fel ei gilydd.

2.4 Buom hefyd yn cydweithio â thîm Cymraeg i Oedolion er mwyn cynnal grwpiau ffocws, ac yr ydym wedi datblygu cynllun mentora arbrofol yn ddiweddar sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. Bydd pedwar pâr yn cwrdd am awr yn rheolaidd mewn lle anffurfiol ar hyn o bryd, ac yr ydym yn bwriadu ehangu'r cynllun yn ystod y misoedd nesaf. Bu'r cynllun, sy'n defnyddio sgiliau staff i symbylu dysgwyr a'u helpu i ddyfalbarhau gyda'u cyrsiau'n llwyddiannus hyd yn hyn. Rydym hefyd yn ceisio annog y staff a roddodd y gorau i'w dosbarthiadau i ymuno â'r cynllun.

2.5 Byddwn yn defnyddio Mewnrwyd y Cyngor i roi gwybod i swyddogion am eu dyletswyddau o safbwynt y Gymraeg. Cafodd y canllawiau ar gyfer hyfforddiant a chyhoeddiadau Cymraeg eu symleiddio, ac y mae hyn wedi helpu rheolwyr i dargedu aelodau o'u timau ar gyfer hyfforddiant, a deall pryd y dylid cyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog. Byddwn yn diwygio ac yn gwella'r canllawiau hyn cyn gynted ag y bydd y Safonau Cymraeg wedi'u cyflwyno.

2.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cytundeb newydd ar gyfer rhannu cyfieithu a fydd yn caniatáu i'r Cyngor fanteisio ar wasanaethau cyfieithu cymeradwy. Bydd y system hon yn gweithredu law yn llaw â'r gwasanaeth y bydd y cyfieithydd mewnol a chyfieithydd y we'n ei ddarparu.

2.7 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu System Rheoli Cynnwys er mwyn diweddaru ei wefan (www.valeofglamorgan.gov.uk). Mae switsh togl amlwg ar dudalen flaen y wefan hon sy'n caniatáu i ddefnyddiwr ddewis rhwng cynnwys/rhyngwyneb Cymraeg a Saesneg. Mae enw parth www.bromorgannwg.gov.uk yn cyfeirio defnyddwyr yn syth at y fersiwn Cymraeg o'r wefan. Copi o'r wefan Saesneg yw'r wefan Gymraeg, ac y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyfieithu tair haen gyntaf y wefan yn eu crynswth yn y mannau y mynegodd y byddai'n gwneud hynny. Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gwtogi ar nifer y tudalennau Saesneg ar y wefan fel y bo modd cyfieithu canran uwch o dudalennau i'r Gymraeg.

2.8 Aethpwyd ati o ddifrif i sicrhau bod gwybodaeth etholiadol a ffurflenni ar-lein yn hollol ddwyieithog. Byddwn yn cysylltu'n amlach â rhai sy'n defnyddio'r wefan Gymraeg er mwyn cael deall eu hunion anghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a gallu datblygu'r wefan yn barhaol.

3. Cynnydd o safbwynt Gwasanaethau Cymraeg rheng flaen

Mae crynodeb o'r Cynllun Cymraeg Gweithredol wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad hwn.

3.1 Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc

3.1.1 Mae Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer Addysg Gymraeg yn dangos bod addysg Gymraeg yn ffynnu yn y Fro er mor fawr ac amrywiol yw'r ardal. Mae'r galw cynyddol hwn yn amlwg wrth ystyried y ddwy ysgol Gymraeg newydd a sefydlwyd yn ddiweddar.

3.1. 2 Sefydlwyd Grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o adrannau Cyngor, ysgolion a sefydliadau Cymraeg lleol amrywiol. Mae'r grŵp wedi llunio cynllun gweithredu er mwyn gweithredu blaenoriaethau strategol addysg, gan gynnwys rhai yn y Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gymunedol, sy'n sôn am *feithrin gweithlu dwyieithog* a *chefnogi'r cyfle sydd gan blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg*. Mae'r cynllun yn gofyn am ddysgu sgiliau sy'n brin yn y gweithlu i siaradwyr Cymraeg, a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r iaith wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau a derbyn gwasanaethau a darpariaeth benodol.

3.1.3 Enghreifftiau:

- cynnig darpariaeth ddwyieithog yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn gynnar ar nos Fercher er mwyn darparu ar gyfer rhyw 40 o bobl ifanc a fydd yn dod yn rheolaidd;
- sefydlu unedau achredu Agored ar gyfer gweithwyr sy'n trafod meysydd amrywiol, a gobeithio achredu'r canlyniadau yng Ngorffennaf 2015;
- rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd ar fin symud ymlaen i flwyddyn 7;
- datblygu fforwm Cymraeg;
- rhoi nawdd er mwyn datblygu gweithgareddau chwaraeon ar y cyd â'r Urdd;

Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd yn cydweithio er mwyn darparu gweithgareddau cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys cyrsiau

Rhwydwaith y Coleg Agored a hyfforddiant ar gyfer cynnal gorsaf radio ysgol), ar gyfer siaradwyr Cymraeg a rhai di-gymraeg fel ei gilydd.

Bydd aelodau unigol o'r bartneriaeth hefyd yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw teilwng yn eu cynlluniau a'u datblygiadau.

3.2 Chwaraeon a Chwarae

3.2.1 Mae Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae ar y cyd â'r Urdd wedi parhau i ddatblygu a darparu chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Swyddog 5x60 sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, am sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol sy'n cael eu cynnig fel darpariaeth allgyrsiol ac yn y gymuned. Bydd yn cyflawni hyn drwy greu cyfleoedd newydd, a hefyd drwy gyfeirio pobl ifanc at y ddarpariaeth sydd eisoes ar gael mewn clybiau cymunedol, a datblygu'r ddarpariaeth honno. Mae'r gweithgareddau 5x60 a gynigir yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn cynnwys Ioga, pêl fasged, Swmba, pêl-droed, rygbi, osgoi'r bêl, badminton, dawns stryd, tennis bwrdd a golff.

3.2.2 Rhan allweddol o raglen 5x6 yw mentora a meithrin sgiliau pobl ifanc, a chafodd 10 o ddisgyblion hŷn eu recriwtio i helpu gyda phrosiectau chwaraeon cymunedol a gweithgareddau mewn ysgolion cynradd Cymraeg ar draws y Fro.

3.3 Gweithgareddau Cymdeithasol yn Gymraeg

3.3.1 Mae rhaglen o gyfarfodydd wedi'i threfnu ar y cyd â Menter Bro Morgannwg er mwyn trafod gweithgareddau'r tu allan i oriau ysgol a gweithgareddau i oedolion yn y Fro. Mae nifer o staff uwch, allweddol yn ymwneud â'r rhaglen gan gynnwys Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Datblygu. Yr Aelod o'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Ysgolion a fydd yn cadeirio'r cyfarfodydd.

3.4 Sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael mewn prif dderbynfeydd, canolfannau cyswllt a siopau-un-stop.

3.4.1 35 o gynrychiolwyr gwasanaeth cwsmeriaid sy'n gweithio yn y ganolfan gyswllt, gan gynnwys 8 aelod o staff rheng flaen sy'n ateb galwadau, a dau sydd wedi'u hyfforddi'n benodol ar gyfer gweithio mewn derbynfa. Gallwn gynnig pob gwasanaeth canolfan gyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.4.2 Mae un rhif ffôn cyhoeddus ar gyfer cysylltu â'r cyngor sy'n cael ei hysbysebu'n ddwyieithog. Mae'n cynnwys llinell Gymraeg benodol sy'n golygu bod gan bawb sy'n ffonio'r cyngor ddewis i drafod ei ymholiad yn y Gymraeg os myn. Bydd pob galwad sy'n cael ei derbyn ar y llinell Gymraeg yn cael ei chyfeirio at siaradwr Cymraeg. Bydd aelod o staff ar gael i ateb galwadau ar y llinell honno rhwng 8.00am a 6.00pm yn unol ag oriau agor y ganolfan gyswllt. Gall y ganolfan gyswllt hefyd ateb negeseuon e-bost a thestun yn ogystal â galwadau ffôn yn Gymraeg.

3.4.3 Ychydig dros1,089 o alwadau a atebwyd ac a drafodwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2014/15. Mae'r cyngor yn ffyddiog y gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o ymholiadau yn ystod un alwad yn unig, heb orfod trosglwyddo'r galwr i unrhyw adran arall o'r cyngor. Cawsom ymateb calonogol iawn i'r gwasanaeth Cymraeg gan y cyhoedd Cymraeg ei iaith. Serch hynny, byddwn yn derbyn llai o alwadau Cymraeg a Saesneg erbyn hyn wrth i fwy o bobl ddewis cysylltu â ni drwy neges testun neu e-bost.

3.4.4 Cofnodir cwynion un ai ar system cysylltiadau cwsmeriaid y Cyngor neu gan yr adrannau eu hunain. Tîm Cydraddoldeb a fydd yn cofnodi ac yn monitro unrhyw gwynion ynglŷn â gweithredu'r Cynllun Iaith. Mae rhestr gwynion a'r camau y bu'n rhaid eu cymryd er mwyn eu trin ar gael i'w hastudio.

3.4.5 Bydd cwynion yn y Gymraeg hefyd yn cael eu cofnodi ar feddalwedd rheoli cysylltiadau cwsmeriaid yn y ganolfan gyswllt, er mwyn sicrhau bod atebion yn cael eu gyrru yn Gymraeg.

4. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

4.1 Adnoddau Dynol – Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Gallu Ieithyddol

4.1.1. Mae'r ffurflen monitro cydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau am allu ymgeiswyr i siarad, ysgrifennu, deall a darllen Cymraeg. Bydd y wybodaeth yn cael ei chofnodi wedyn ar system Oracle yr adran adnoddau dynol.

4.1.2. Yn 2010, dangosodd ein harchwiliad sgiliau iaith fod gan lawer iawn o staff rywfaint o Gymraeg a bod dros 400 o staff yn medru Cymraeg elfennol. Roedd nifer hefyd wedi mynegi diddordeb mewn dysgu'r iaith neu wella eu sgiliau Cymraeg. Bu hyn o gymorth i ni dargedu pobl ar gyfer hyfforddiant, a dod i gysylltiad â staff dwyieithog pan oedd eu hangen arnom. Bydd hefyd yn helpu arweinwyr timau i gynllunio hyfforddiant.

4.1.3 Roedd arolwg 2013 yn llawer mwy eang, ac yn cynnwys gweithwyr â llaw na fyddant yn defnyddio cyfrifiaduron. Mae'r ffigyrau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, a chyflwynwyd manylion am swyddi a graddfeydd i'r Comisiynydd Cymraeg fel rhan o waith dilynol Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd.

4.2 Caffael

Rydym wedi adolygu canllawiau caffael y cyngor a gwella contractau cyfreithiol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i'r Cynllun Iaith. Mae prif gontractau'n gorfodi'r unigolion perthnasol i gydymffurfio â Chynllun Iaith y Cyngor.

5. Prif Ffrydio

5.1. Bydd pob prif bolisi corfforaethol, y gyllideb a rhai swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu hasesu am eu heffaith ar gydraddoldeb gyda golwg ar bob un o 'nodweddion cydraddoldeb' gan gynnwys y Gymraeg. Bydd y swyddogion sy'n cynnal yr asesiadau hyn yn cael cyngor oddi wrth y Swyddog Cyswllt Cydraddoldeb yn ystod y cyfnod rhychwantu ac yn gwybod am y Cynllun Iaith. Bydd y Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol ar gael i gynghori ynglŷn â materion Cymraeg.

5.2. Bydd y cynllun gweithredu Cymraeg yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan dîm Cydraddoldeb, ochr yn ochr â'r cynlluniau gweithredu ar gyfer nodweddion eraill cydraddoldeb. Bydd hyn yn sicrhau bod materion felly'n brif ystyriaeth wrth i ni ddatblygu ein gwaith o ddydd i ddydd.

5.3 Bydd materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu dwyn i mewn i'r brif ffrwd drwy fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Mae holl gynlluniau gwasanaeth adrannau'r cyngor yn cynnwys amcanion cydraddoldeb sy'n nodi risgiau, mesurau perfformiad a chamau gweithredu. Bydd mesurau'n cael eu hadolygu bob chwarter gan y pwyllgor craffu priodol, a bydd camau gweithredu'n cael eu hadolygu bob chwe mis yn yr un modd.

5.4 Mae gan y cyngor weithgor swyddogion mewnol (Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol) sy'n cyfeirio gwybodaeth at y gwahanol adrannau ac yn fforwm ar gyfer codi a thrafod problemau. Bydd hefyd yn cynnal Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, sef un o bwyllgorau ffurfiol y cyngor sy'n cynnwys aelodau etholedig a chynrychiolwyr o grwpiau cefnogi ac ymgyrchu.

6. Dadansoddi Perfformiad yn ôl blaenoriaeth a thargedau

6.1 Bydd y cyngor yn monitro gweithrediad y Cynllun Iaith drwy gymryd y camau hyn:

- monitro cynlluniau gweithredu'n rheolaidd;
- darparu cynllun gwella blynyddol sy'n cynnwys targedau a chrynodeb o'r hyn sydd i'w gyflawni o safbwynt gweithredu'r Cynllun Iaith;
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Craffu a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

6.2 Bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu llunio gan dîm Cydraddoldeb drwy ymgynghori â'r rheolwyr a'r swyddogion sy'n gweithredu'r Cynllun. Bydd cwynion ynglŷn â gweithredu'r Cynllun yn cael eu casglu gan dîm Cydraddoldeb, ac er mai ychydig iawn sy'n dod i law fel arfer, y mae'n bwysig bod y cyngor yn cael gwybod lle y gellir gwella'r gwasanaeth. Bydd y Cyngor yn cynnal arolygon barn o bryd i'w

gilydd ac yn trefnu grwpiau ffocws er mwyn ymgynghori â siaradwyr Cymraeg ynglŷn â safon y gwasanaeth Cymraeg a gynigir iddynt.

7. Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad

7.1 Bydd y cyngor yn casglu ac yn cyflwyno gwybodaeth am bob mesur statudol cenedlaethol sy'n cael ei ddefnyddio, ac yn gosod targedau ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi mabwysiadu ychydig o ddangosyddion lleol sydd o gymorth i ni fesur ein cynnydd o safbwynt gweithredu'r Cynllun. Mae'r wybodaeth hon ar gael yng Nghynllun Gwella a chynlluniau gwasanaethau'r cyngor sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ac ar gael ar ein gwefan sef www.valeofglamorgan.gov.uk neu www.bromorgannwg.gov.uk

7.2 Yn ogystal â hyn, pan fydd y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cymeradwyo'r adroddiad hwn, bydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau Cydraddoldeb gwefan y cyngor ynghyd â gwybodaeth arall am faterion iaith.

y graddau y bydd sefydliadau sy'n gweithredu ar ran y cyngor yn cydymffurfio â gofynion Cymraeg. Bydd y cyngor yn cymryd sampl o gontractau â thrydydd person er mwyn nodi unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion Cymraeg sydd wedi'u rhestru yng nghanllawiau caffael y cyngor. Caiff y wybodaeth ei chyflwyno fel canran o'r nifer yn y sampl (a hefyd fel ffracsiwn o'r nifer honno).	Rydym wedi adolygu canllawiau caffael y Cyngor a gwella'r trefniadau ar gyfer contractau cyfreithiol er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth fanwl i'r Cynllun Iaith. Adolygwyd contract mawr ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden y Cyngor yn Rhagfyr 2012. Gwnaethpwyd 'cydymffurfio â Chynllun Iaith y Cyngor' yn un o'r amodau.
Gwybodaeth am staffio swyddi rheng flaen a recriwtio i'r swyddi hynny ar hyn o bryd. Swyddi yn 'swyddfa flaen' y Cyngor	8 o'r 35.5 cynrychiolydd gwasanaeth cwsmeriaid yn y ganolfan gyswllt sy'n rhugl yn y Gymraeg - sef 22.8% o'r tîm.

yw swyddi rheng flaen, a byddwn yn mesur y dangosydd hwn ar sail y swyddi hynny. Yn fwyfwy, daw'r term i olygu swyddi yng nghanolfan gyswllt UnFro. Caiff y nifer ei chyflwyno fel canran o'r rhai mewn swyddi rheng flaen (a hefyd fel ffracsiwn o'r nifer honno).	
Nifer y staff sy'n dilyn hyfforddiant a'r lefel neu'r radd a gyrhaeddwyd. Byddwn yn mesur hyn ar sail nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg y Cyngor. Caiff ei gyflwyno fel rhif yng nghategorïau: Mynediad a Sylfaenol; Canolradd; Uwch; Uwch a Meistroli.	13 aelod o staff sydd wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant Cymraeg ac yn dal i ddilyn eu cyrsiau ar hyn o bryd (Mawrth 2015). 4 sy'n dilyn cwrs Mynediad Lefel 1 8 sy'n dilyn cwrs Mynediad Lefel 2 1 sy'n dilyn cwrs Uwch.
Nifer staff y Cyngor a chanddynt sgiliau Cymraeg. Cafodd y dangosydd hwn ei fesur yn ystod Archwiliad Sgiliau Ieithyddol 2013.	59 o aelodau o staff sy'n eu hystyried eu hunain yn 'rhugl' yn yr iaith, a 43 o rai eraill sy'n eu hystyried eu hunain yn 'atebol'. 17 sy'n teimlo bod ganddynt afael 'da' ar yr iaith ac y mae rhai cannoedd o staff yn teimlo eu bod yn deall hanfodion yr iaith.
Nifer y cwynion ynglŷn â gweithredu'r Cynllun Iaith. Byddwn yn mesur y dangosydd perfformiad hwn ar sail nifer y cwynion am gynnwys y Cynllun neu weithredu'r Cynllun y mae Tîm Cydraddoldeb wedi'u hateb ac yn bwriadu eu harchwilio.	Derbyniodd y Cyngor 4 cwyn am faterion amrywiol a 27 llythyr oddi wrth drigolion fel rhan o ymgyrch a drefnwyd yn benodol er mwyn ei annog i ddarparu mwy o weithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg. Mae rhestr ar gael i'w hastudio.

8. Gwybodaeth Ychwanegol

8.1 Mae'r Cyngor wedi llenwi holiadur manwl gorfodol y Comisiynydd Iaith ac yn aros am hysbysiad cydymffurfio ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau o gofnodi gweithgareddau'n unol â'r Safonau Cymraeg newydd.

8.2 Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â chyrff eraill fel tîm Cymraeg i Oedolion a Menter Bro Morgannwg er mwyn rhoi cyfle i staff feithrin eu sgiliau a helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer ei drigolion.

	Derbyniodd y Cyngor 4 cwyn am faterion amrywiol a 27 llythyr oddi wrth drigolion fel rhan o ymgyrch a drefnwyd er mwyn ei annog i ddarparu mwy o weithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg. Mae rhestr ar gael i'w hastudio.

Atodiad 1 – Data Diweddaraf y Cynllun Gweithredu Cymraeg

CIG 62	Cyhoeddi a hyrwyddo'r Strategaeth Sgiliau Iaith.	Codi ymwybyddiaeth y staff.	**Cwblhawyd**: - Cafodd y cynllun ei weithredu a'i hyrwyddo.
CIG 63	Llunio a gweithredu Strategaeth Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.	Bydd hyfforddiant pwrpasol ar gael ac yn cael ei fonitro.	**Cwblhawyd**: - Mae'r strategaeth wedi'i hadolygu ac yn ei lle.

CIG 64	Hyrwyddo a chyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg.	Mae staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau.	**Cwblhawyd:** - Defnyddir y Cynllun Iaith yn helaeth fel dogfen gyfeirio wrth ymateb i ymholiadau. Bydd gwybodaeth gyhoeddus nad yw'n ddwyieithog yn cael ei symud o olwg y cyhoedd a byddwn yn cwyno wrth y swyddog cyfrifol.
CIG 65	Sicrhau y cesglir gwybodaeth am sgiliau iaith oddi wrth bob aelod o staff.	Casglwyd gwybodaeth allweddol am sgiliau staff.	**Cwblhawyd**: - Cyflwynwyd y wybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg.
CIG 66	Sicrhau bod arwyddion a bathodynnau'n hawdd eu gweld mewn derbynfeydd.	Bydd trigolion yn teimlo bod croeso iddynt siarad Cymraeg wrth ymweld â'r Cyngor.	**Cwblhawyd**: - Mae arwyddion amlwg mewn derbynfeydd a bydd siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynnau.
CIG6 7	Sicrhau bod digon o staff Cymraeg eu hiaith ar gael yn y Ganolfan Gyswllt.	Gall defnyddwyr y Gymraeg gael gwybodaeth a gwasanaethau yn eu dewis iaith.	**Cwblhawyd**: - 8 o'r 35 cynrychiolydd gwasanaeth cwsmeriaid yn y Ganolfan Gyswllt sy'n siarad Cymraeg.
CIG 68	Trefnu i'r holl wybodaeth a ffurflenni ar-lein ynglŷn â chofrestru ar gyfer yr etholiad gael eu cyfieithu.	Mae'r trefniadau ar gyfer etholiadau'n ddwyieithog.	**Cwblhawyd**.
CIG 69	Sicrhau bod gan bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg droedyn e-bost dwyieithog.	Gŵyr trigolion pryd y cânt ymateb yn Gymraeg.	**Cwblhawyd**:- Mae nodyn 'Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg' wrth enw pob siaradwr Cymraeg.

CIG 70	Sicrhau bod deg tudalen fwyaf poblogaidd ein gwefan yn gwbl ddwyieithog.	Mae'r rhannau mwyaf poblogaidd o'n gwefan ar gael yn Gymraeg.	Ni allwn sicrhau hyn bellach am fod blaenoriaethau wedi newid ac yr ydym ar ganol symleiddio'r wefan.
CIG 71	Sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r newyddion diweddaraf, diweddariadau a swyddi wrth gyfieithu'r wefan.	Bydd elfennau pwysicaf y wefan yn cael eu cyfieithu'n gyflym.	Gweler CIG 70
CIG 72	Adolygu holl gynnwys Cymraeg y wefan.	Drwy gael golwg ar y cynnwys yn rheolaidd gellir sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gywir.	**Cwblhawyd**: - Mae'n fater o arfer erbyn hyn.
CIG 73	Adolygu disgrifiadau swyddi a manylebau personol staff derbynfeydd, a'u diwygio ar gyfer staff newydd er mwyn cael cynnwys sgiliau Cymraeg.	Gall rheolwyr gynnig cyfleusterau Cymraeg mewn meysydd rheng flaen.	**Cwblhawyd**.

CIG 74	Helpu aelodau etholedig i hysbysebu a gwella eu sgiliau.	Gŵyr trigolion pa aelodau sy'n siarad Cymraeg.	**Ar y gweill**: Cynhaliwyd 4 sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig yn Ebrill a Mai 2013. Y Grŵp Annibynnol, Adnoddau Corfforaethol (Craffu), y Cabinet a Phlaid Cymru a gymerodd ran. Mae rhai o'r aelodau etholedig wedi cofrestru ar gyfer dysgu Cymraeg. Byddwn yn trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth ar ôl derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg.
CIG 75	Cynnal "ffair swyddi" gyda Choleg Y Barri ac Ysgol Bro Morgannwg er mwyn hybu profiad gwaith sy'n gofyn am y Gymraeg ac annog disgyblion sy'n medru'r iaith i ymgeisio am swyddi.	Bydd gan staff y sgiliau i allu ateb yr angen am ddarparu gwasanaethau dwyieithog.	**Ar y gweill**: Mae gennym gysylltiad erbyn hyn ag adran yrfaoedd Ysgol Bro Morgannwg, a buom yn dosbarthu taflenni ar adeg cyhoeddi canlyniadau Safon Uwch.
CIG 76	Darparu canllawiau ar gyfer swyddogion sy'n gweithio mewn partneriaethau.	Mae swyddogion yn ymwybodol o ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg.	**Cwblhawyd.**
CIG 77	Sicrhau bod Strategaeth Adnoddau Dynol a Chynllun y Gweithlu'n gydnaws â'r Strategaeth Sgiliau Iaith.	Prif ffrydio'r Strategaeth Sgiliau Iaith fel rhan o Gynllun y Gweithlu.	**Cwblhawyd.**

CIG 78	Adolygu'r iaith a ddefnyddir mewn disgrifiadau swyddi er mwyn sicrhau ei bod yn eglur i rai sy'n medru'r Gymraeg.	Defnyddir Cymraeg Clir mewn disgrifiadau swyddi.	**Ar y gweill**: Bydd y cyfieithydd yn cadw cofnod o bob cais am ddisgrifiad swydd ac yn cydweithio â'r Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol.
CIG 79	Eglurwch pa safon o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer swyddi penodol.	Mae'n amlwg pa safon o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer pob rôl.	**Ar y gweill**: Bydd y Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol yn cael golwg ar unrhyw hysbysebion newydd.
CIG 80	Cynnal ymgyrch 'Mae gen ti ddewis' newydd er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio llinell ffôn y Ganolfan Gyswllt.	Bydd y llinell Gymraeg yn cael ei hysbysebu a mwy o bobl yn dod i wybod am y gwasanaeth a'i ddefnyddio o ganlyniad.	**Ar y gweill**: Methwyd â sicrhau nawdd ar gyfer y prosiect hwn hyd yn hyn.
CIG 81	Rhoi hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i staff yn rheolaidd a sicrhau bod cyfleoedd anffurfiol ganddynt hefyd i ymarfer eu sgiliau Cymraeg.	Mae staff yn gwybod am faterion Cymraeg ac yn gallu meithrin eu sgiliau.	**Ar y gweill**: Bwriadwn gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth rhwng Ebrill a Gorffennaf 2015 er mwyn rhoi gwybod i staff uwch ac aelodau etholedig am ofynion y Safonau newydd.

CIG 82	Sefydlu perthynas weithio drefnus â Menter y Fro er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau hamdden ac wrth i wasanaethau gael eu preifateiddio.	Mae mwy o gymorth i ddysgwyr a thrigolion.	**Ar y gweill**: Mae'r Cyngor bellach yn cydweithio â sefydliad newydd 'Menter Bro Morgannwg' er mwyn sicrhau bod gwell cyfle yn y Fro i siaradwyr Cymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd erbyn hyn er mwyn trafod dulliau o hybu dwyieithrwydd.

CIG 83	Cynnwys materion Cymraeg mewn hyfforddiant ar gyfer recriwtio a dewis staff.	Mae rheolwyr yn ymwybodol o ofynion y Strategaeth Sgiliau Iaith.	**Cwblhawyd**.
CIG 84	Llunio a dosbarthu cronfa ddata y caiff adrannau ei defnyddio i gofnodi unigolion a sefydliadau sydd am gyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg.	Mae'r Cyngor yn gwybod pa drigolion sydd am ymwneud â'r Cyngor yn Gymraeg.	Ni ddaethpwyd i ben â hyn – byddwn yn ei gynnwys yn y safonau newydd.

CIG 6 (cyfredol)	Archwilio cyhoeddiadau, dogfennau a deunydd hysbysebu'r Cyngor.	Mae rheolwyr yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.	Oherwydd ad-drefnu, bu'n rhaid gohirio'r archwiliad hwn tan Fedi 2015. Byddwn yn ei gynnwys yn y safonau newydd.
CIG 7 (dwyn ymlaen)	Bydd staff y Ganolfan Gyswllt yn dod i wybod	Bydd cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith yn	Bydd yn rhan o'r safonau newydd.

	pa iaith y mae cwsmeriaid am ei defnyddio ac yn rhoi gwybod i staff swyddfa gefn.	cael gwybodaeth yn eu dewis iaith.	
CIG 9 (dwyn ymlaen)	Archwilio dogfennau strategol newydd bob blwyddyn er mwyn asesu i ba raddau y mae amcanion y Cynllun Iaith wedi'u cyflawni.	Bydd pob dogfen strategol yn cael ei chyfieithu fel y bo'n briodol.	Mae blaenoriaethau'r tîm cyfathrebu wedi newid a'r wefan Gymraeg yn cael ei hadolygu.
CIG 85	Cyflwyno gwybodaeth am sgiliau iaith yn yr adroddiad monitro blynyddol.	Bydd data'n cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith bob blwyddyn.	**Cwblhawyd**.
CIG 86	Monitro Cynlluniau Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y camau sy'n berthnasol i Gynllun Cydraddoldeb y Fro a'i dargedau'n cael eu cymryd yn effeithiol.	Bydd camau gweithredu sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu monitro fel rhan o'r Cynlluniau Gwasanaeth.	**Cwblhawyd**.
CIG 87	Adolygu fformat presennol hysbysebion am swyddi er mwyn cynnwys mwy o destun dwyieithog.	Mae hysbysebion yn cynnwys mwy o destun dwyieithog.	Ni ddaethpwyd i ben â hyn hyd yma. Bydd yn rhan o'r drefn o dan y safonau newydd.